Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Caedraw

Ffordd Caedraw
Merthyr Tudful
CF47 8HA

Dyddiad yr arolygiad:  Ionawr 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Caedraw

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Caedraw |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 228 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 168 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 34 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.7%) | 26.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 9.2%) | 39.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 7.7% |
| Partner arweiniol mewn addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 07/05/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 19/01/2026 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Caedraw yn gymuned ysgol hapus a bywiog lle mae arweinwyr yn cyfleu gweledigaeth glir a phwrpasol ar y cyd sy'n rhoi disgwyliadau, lles a chynhwysiant yn ganolog i waith yr ysgol. Mae'r weledigaeth strategol gref hon yn hyrwyddo ethos ysgol gyfan cadarnhaol ac yn galluogi staff i gynllunio cwricwlwm dilys sy'n adlewyrchu anghenion disgyblion a'r cyd-destun lleol yn dda.

Mae'r addysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol, gyda phrofiadau dysgu wedi'u cynlluno'n dda  sy'n ennyn ymgysylltiad disgyblion yn llwyddiannus ac yn cefnogi cynnydd ar draws y cwricwlwm. Mae arferion asesu ac adborth yn datblygu, er nid yw adborth athrawon yn darparu camau nesaf clir yn gyson.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Maent yn datblygu medrau rhifedd a llythrennedd cadarn, yn cynnwys medrau llafaredd a medrau datrys problemau cryf. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cymhwyso'u medrau ysgrifennu yn effeithiol mewn cyd-destunau bywyd go iawn ystyrlon, ac yn datblygu medrau gwaith tîm cadarnhaol trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau a phrosiectau cymunedol. Mae hyrwyddo'r Gymraeg yn gryfder sylweddol, ac mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos medrau llafaredd Cymraeg hyderus.

Mae hunanwerthuso a chynllunio strategol ar gyfer y cwricwlwm yn canolbwyntio'n briodol ar gynnydd disgyblion. Mae arweinwyr yn nodi cryfderau a blaenoriaethau'n gywir, er nid yw cynllunio gwelliant bob amser yn ddigon manwl gywir i helpu arweinwyr i werthuso effaith gweithredoedd unigol. Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi a herio arweinwyr yn effeithiol. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gref o ansawdd y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i ddwyn arweinwyr i gyfrif. Nid yw systemau i werthuso a gwella presenoldeb yn ddigon craff, ac o'r herwydd, mae presenoldeb yn rhy isel.

Mae arweinwyr yn dosbarthu rolau a chyfrifoldebau yn bwrpasol i feithrin capasiti arwain ar draws yr ysgol. Maent yn rhoi pwyslais cryf ar ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel ac yn ei gysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae staff yn cydweithio o fewn yr ysgol, ar draws y clwstwr ac o fewn yr awdurdod lleol, sy'n ehangu eu harbenigedd ac yn cryfhau addysgu a dysgu.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Gwella presenoldeb

A2 Gwella'r effaith a gaiff pob math o adborth ar ddysgu disgyblion

A3 Mireinio cynllunio gwelliant fel ei fod yn fwy hylaw ac yn creu effaith

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae arweinwyr yn Ysgol Gynradd Caedraw yn cyfleu gweledigaeth ar y cyd sy'n rhoi disgwyliadau uchel, lles a chynhwysiant yn ganolog i waith yr ysgol. Caiff y weledigaeth effaith gadarnhaol ar draws y gymuned ysgol hapus hon ac mae'n gyrru cwricwlwm dilys a difyr sy'n adlewyrchu anghenion disgyblion a'r cyd-destun lleol yn dda. Mae staff yn gwneud defnydd da o'r amgylchedd dysgu, yn cynnwys gofodau awyr agored wedi'u dylunio'n dda a rhandir lleol, i gyfoethogi dysgu. Mae ystafelloedd dosbarth yn atyniadol, ac mae disgyblion yn siarad â balchder a hyder am yr ysgol a'u gwaith. Mae perthnasoedd cryf, ethos anogol a rheoli ymddygiad yn gyson yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Mae addysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol gyda phrofiadau dysgu wedi eu cynllunio'n dda sy'n ennyn ymgysylltiad disgyblion ac yn cefnogi cynnydd da ar draws y cwricwlwm. Mae'r disgyblion ieuengaf yn elwa ar arfer wedi'i hystyried yn ofalus sy'n cefnogi eu hanghenion dysgu a lles yn effeithiol, ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer eu datblygiad yn y dyfodol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae athrawon yn darparu lefelau da o her a chymorth. Mae gwersi gydag amcanion dysgu clir yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion, ac mae holi effeithiol yn helpu disgyblion i ddeall eu cryfderau a'u meysydd i'w datblygu.

Mae disgyblion yn myfyrio ar eu dysgu yn ofalus ac yn ymateb yn gadarnhaol i adborth gan athrawon a chyfoedion. Mewn lleiafrif o achosion, mae adborth yn bwrpasol, er nid yw athrawon bob amser yn rhoi camau nesaf clir, uniongyrchol, sy'n eu helpu i wella'u gwaith neu ddyfnhau eu dealltwriaeth.

Ar draws yr ysgol, yn cynnwys y Canolfannau Adnoddau Dysgu (CADau), mae llais y disgybl yn y cwricwlwm yn gryf. Mae staff yn defnyddio ystod o strategaethau sy'n galluogi disgyblion i ddylanwadu ar eu dysgu, fel sesiynau 'Amser Fi'. Yn ystod y sesiynau hyn, mae disgyblion yn nodi'r medrau y mae angen iddynt eu datblygu o fewn eu gwaith testun ac yn gweithio'n annibynnol ac yn hyderus i'w hymarfer a'u cymhwyso. Mae gan grwpiau arweinyddiaeth disgyblion gynlluniau gweithredu clir, er mae cyfarfodydd yn dibynnu gormod ar arweiniad gan athrawon. Mae hyn yn cyfyngu ar y graddau y mae disgyblion yn dylanwadu ar wneud penderfyniadau.

Yn y dosbarthiadau ieuengaf, mae staff yn ymateb yn dda i anghenion personol a chymdeithasol amrywiol disgyblion trwy greu amgylcheddau dysgu digynnwrf, cefnogol a pharchus. Mae hyn yn eu helpu i ymgyfarwyddo'n gyflym ag arferion a meithrin perthnasoedd cadarnhaol â'u cyfoedion a'u hathrawon. Ar draws yr ysgol, mae gan athrawon ddisgwyliadau clir ar gyfer ymddygiad ac ymgysylltu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Yn yr achosion prin lle mae disgyblion yn methu rheoli

eu hemosiynau, mae staff yn ymateb â thosturi a dealltwriaeth, sy'n helpu disgyblion i deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi.

Mae pwyslais cryf ar ddatblygu medrau iaith a chyfathrebu disgyblion yn helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu medrau llafaredd cryf. Maent yn cyfathrebu'n glir ac yn siarad yn hyderus am eu dysgu. Mae darpariaeth ddarllen yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn sefydlu gwybodaeth gadarn am ffoneg y maent yn ei chymhwyso'n llwyddiannus wrth ddarllen. Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn rhugl yn hyderus a gyda mwynhad. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu effeithiol ac yn eu defnyddio'n bwrpasol ar draws y cwricwlwm. Mae profiadau dysgu wedi'u cynllunio'n dda yn darparu cyfleoedd mynych i ddisgyblion ysgrifennu'n greadigol ac yn estynedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso ystod o ffurfiau ysgrifennu yn effeithiol, yn cynnwys ysgrifennu perswadiol wedi'i gysylltu â chyd-destunau bywyd go iawn.

Mae dulliau addysgu hyblyg yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd da yn datblygu eu medrau mathemateg, yn cynnwys datrys problemau. Mae disgyblion yn mwynhau cyfleoedd dilys i gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm, ond mewn ychydig iawn o achosion, nid yw athrawon bob amser yn nodi a mynd i'r afael â chamdybiaethau'n gyson.

Ciplun: Y Gymraeg a'i diwylliant

Mae datblygu'r Gymraeg a'i diwylliant yn gryfder sylweddol. Mae ffocws ysgol gyfan ar ddatblygu medrau llafaredd Cymraeg disgyblion ac mae staff yn gweithredu fel modelau rôl iaith cryf. Mae staff yn hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus trwy ei defnyddio bob dydd a chyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau mewn cyd-destunau dilys fel gwasanaethau a grwpiau llais y disgybl. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu defnyddio patrymau brawddeg uchelgeisiol sy'n eu helpu i ddatblygu eu medrau llafaredd yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg ac yn ymfalchïo yn eu hunaniaeth Gymreig.

Mae ystod eang o brofiadau dysgu creadigol, digidol a mynegiannol yn galluogi disgyblion i ddatblygu cymhwysedd digidol a chymhwyso'u medrau'n hyderus. Mae cyfleoedd creadigol, yn cynnwys gwaith gydag artistiaid lleol a chymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol, yn helpu disgyblion i ddatblygu medrau cydweithio, dealltwriaeth emosiynol a mwynhad o ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth ysbrydol, foesol a diwylliannol yn dda. Maent yn datblygu empathi, parch a dealltwriaeth o gydraddoldeb. Mae prosiectau menter ac ymgysylltu pwrpasol gan ymwelwyr o fyd gwaith yn datblygu dyheadau disgyblion ar gyfer y dyfodol yn llwyddiannus.

Mae cynllunio strategol yn canolbwyntio ar gynnydd disgyblion yn briodol. Mae arweinwyr yn nodi cryfderau ac yn blaenoriaethu meysydd i'w gwella yn gywir trwy weithgareddau hunanwerthuso trylwyr a dadansoddi tystiolaeth, yn cynnwys o fewn y Canolfannau Adnoddau Dysgu. Ond nid yw cynllunio gwelliant bob amser yn ddigon manwl gywir, ac mewn ychydig o achosion, mae targedau'n cynnwys gormod o gamau sy'n cyfyngu ar allu arweinwyr i werthuso effaith yn ddigon craff. Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi a herio'r ysgol yn dda. Mae eu hymglymiad mewn gwerthuso addysgu a dysgu mewn grwpiau blwyddyn unigol yn eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth ysgol gyfan ddyfnach o ddarpariaeth a chynnydd disgyblion.

Mae arweinwyr yn dosbarthu rolau a chyfrifoldebau yn effeithiol. Maent yn blaenoriaethu dysgu proffesiynol o ansawdd uchel ac yn cysylltu hyn yn agos â blaenoriaethau ysgol gyfan. Mae staff yn elwa ar gydweithio cryf yn yr ysgol, y clwstwr a'r awdurdod lleol i ehangu eu harbenigedd sy'n cryfhau ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Mae trefniadau diogelu yn gadarn ac mae staff wedi cael eu hyfforddi'n briodol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol, yn enwedig o fewn y Canolfannau Adnoddau Dysgu. Mae arweinwyr yn gweithio'n agos gyda grwpiau cymunedol i ddarparu cymorth effeithiol ar gyfer teuluoedd, ond nid yw systemau i olrhain presenoldeb grwpiau penodol wedi llwyddo i godi lefelau presenoldeb ar gyfer grwpiau penodol eto. O ganlyniad, nid yw'r ysgol yn mynd i'r afael â'r gyfradd presenoldeb sy'n gyffredinol isel yn ddigon da.

Mae arweinwyr yn rheoli cyllid yr ysgol, yn cynnwys cyllid grant, yn effeithiol. Mae penderfyniadau gwariant yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau'r ysgol ac yn canolbwyntio'n graff ar wella deilliannau ar gyfer pob un o'r disgyblion. Mae cynllunio ariannol cadarn yn galluogi arweinwyr i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon, cynnal sefydlogrwydd ariannol a gwella profiadau dysgu disgyblion.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/03/2026